# GYRFAOEDD ARTISTIG

**Gyrfaoedd Artistig:**

Arlunydd
Artist Celf Corff/Tatwydd
Athro Celf a Dylunio
Arlunydd Colur
Curadur Amgueddfa/Oriel Gelf
Darlunydd
Darlunydd Masnachol
Dylunydd Arddangosfeydd
Dylunydd Cerameg
Dylunydd Ffasiwn
Dylunydd Gemwaith
Dylunydd Gwisgoedd
Dylunydd Graffeg
Dylunydd Setiau
Dylunydd Tecstiliau
Ffotograffydd
Gof Artistig
Pensaer
Saer Coed
Therapydd Celf
Ymchwilydd Lluniau

# Arlunydd

Oriau afreolaidd, gall gynnwys penwythnosau

£ Rhwng £16,000 - £35,000

★ Sgiliau Creadigol

## Gweithgareddau Gwaith

Mae artistiaid yn cynhyrchu Celfyddyd Gain sy'n cael ei werthfawrogi am ei harddwch a'i allu i effeithio ar emosiynau neu feddyliau pobl. Maent yn gwneud bywoliaeth drwy werthu eu gwaith i'r cyhoedd. Maent yn arbenigo mewn maes penodol fel paentio, cerflunio a phrintio.

Y dulliau mae artistiaid yn ei ddefnyddio yw:
-paentio
-darlunio
-celfyddydau graffeg
-gwneud print
-ffotograffiaeth

Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, er enghraifft:
-lliwiau dwr
-paent olew
-metal,
-pren
-clai
Mae rhai artistiaid yn defnyddio cyfuniad o ddefnydd.

Mae'n bwysig i artistiaid hyrwyddo eu gwaith er mwyn gwerthu eu gwaith a chael arddangosfeydd mewn orielau. Mae artistiaid yn arddangos eu gwaith ar y rhyngrwyd, drwy galeriau ar-lein neu wefannau celf. Mae gan rai wefannau eu hunain.
Mae'r gystadleuaeth i fod yn artist yn gryf iawn, felly bydd llawer o artistiaid yn darganfod gwaith rhan amser er mwyn atodi eu hincwm.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel artist, bydd angen:

- Sgiliau creadigol ac artistig.
- Dealltwriaeth dda o liw, siâp a ffurf.
- Mwynhau gweithio ar eich pen eich hun.
- Hunan-gymhelliant, penderfynoldeb a hunanhyder.
- Sgiliau busnes, os ydych yn hunangyflogedig.
- Gallu ymdopi â gwaith ac incwm sy'n amrywio.
- Sgiliau marchnata.
- Gweithio i derfynau amser.
- Bod yn fath o berson sy'n gallu ymdopi â chael eich gwrthod.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog:**

Mae'n dibynnu ar boblogrwydd eu gwaith.
Gall artistiaid ennill rhwng £16,000 - £35,000 y flwyddyn
Ond ychydig iawn sy'n gallu dibynnu ar werthu eu gwaith yn unig i wneud bywoliaeth.

**Oriau gwaith:**
Gallant ddewis eu horiau gwaith eu hunain.
Oriau afreolaidd gan gynnwys penwythnosau.
Oriau hir, yn arbennig wrth i derfyn amser ar gyfer darn penodol o waith agosáu.

**Ble gallwn i weithio?**
Safleoedd preswyl – e.e mewn ysgol, ysbyty neu gadeirlan.

Gallant hyrwyddo eu gwaith ar-lein ar y rhyngrwyd sy’n golygu nad yw lleoliad mor bwysig.
Mae artistiaid yn aml yn mynd yn hunangyflogedig, sydd yn helpu i roi rhyddid artistig ond mae'n lleihau sicrwydd swydd hirdymor.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant:

Llwybr cyffredin i'r yrfa hon yw drwy Cyrsiau sylfaen mewn Celf a Dylunio wedi'i ddilyn gan gradd, HND neu radd sylfaen mewn pwnc megis celfyddyd gain neu weledol.

Am gyrsiau Addysg Uwch, bydd angen portfolio eang arnoch.

## Cymwysterau:

Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Celf Sylfaen ➔ Gradd/HND/Gradd Sylfaen

## Artist Celf Corff/ Tatwydd

hyd at 42 awr yr wythnos, gan gynnwys penwythnosau

£ Rhwng £15,000 a £20,000

★Gallu artistig a dychymyg byw

### Gweithgareddau Gwaith

Mae tatwyddion yn defnyddio sgiliau artistig a thechnegol i osod delweddau parhaol ar gyrff pobl. Maen nhw'n defnyddio nodwyddau a phigmentau tatw i wneud hyn. Er mwyn cael caniatâd a thrwydded gan adran iechyd yr amgylchedd leol, mae'n rhaid i datwyddion weithio yn unol ag amodau hylendid caeth iawn. Maent yn gyfrifol am wneud yn siwr bod amgylchedd y sdiwdio a'r offer yn lân a di-haint.

Bydd y tatwyddyn yn siarad â'r cwsmer i gael gwybod beth yn union yr hoffai ei gael. Gall y cwsmer ddefnyddio ei syniadau ei hun, neu dewis dyluniad safonol sydd ar gael yn y sdiwdio. Mae'n bosib i gwsmeriaid gyfuno eu syniadau eu hunain gyda dyluniadau'r tatwyddyn. Trwy drafod y dewisiadau, bydd y tatwydd a'r cwsmer yn dod I gytundeb. Rhaid cadarnhau fod y cwsmer dros 18 oed.

Bydd y tatwydd yn defnyddio troslun sylfaenol sy'n cael ei roi yn ei le fel canllaw, ac yna bydd y peiriant rhoi tatw yn trosglwyddo pigment i'r croen.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel tatwydd, bydd angen i chi:

- Ddod ymlaen gyda chleientiaid a rhoi tawelwch meddwl iddyn nhw.
- Meddu ar allu artistig a dychymyg byw.
- Meddu ar sgiliau cydgysylltiad da rhwng y llaw a'r llygad, a llaw gadarn.
- Os ydych chi'n rhedeg eich stiwdio tatw eich hun, bydd angen sgiliau busnes arnoch chi.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Gall ddibynnu ar ba ran o'r wlad mae'n gweithio ynddi ac enw da ei stiwdio.
Gall tatwydd cyflogedig ennill tua £240 yr wythnos, gan godi i £290 i £350.
Gall tatwydd hunangyflogedig sydd wedi ennill ei blwyf ennill rhwng £23,500 a £38,000 y flwyddyn.

**Oriau gwaith**
Bydd tatwyddion yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos, sy'n cynnwys gweithio ar ddydd Sadwrn fel arfer.
Mae'n bosibl y bydd angen gorffen yn hwyr un neu ddwy noson yr wythnos hefyd.

**Ble allen i weithio?**
Stiwdios tatw a chelf y corff.
Mae cyfleoedd ar gael i datwyddion mewn trefi a dinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig.

### Llwybrau mynediad a Hyfforddiant

Nid oes llwybr mynediad ffurfiol i'r swydd hon.
Mae'r sgiliau'n cael eu dysgu yn y gwaith fel arfer.
Mae rhai pobl yn troi at roi tatws ar ôl cael cefndir mewn celf - ee. celf graffig neu gelf gain neu trwy astudio celf yn y coleg neu'r brifysgol.
Gallwch greu a gwerthu dyluniadau masnachol ar gyfer tatws er mwyn i bobl ddod i adnabod eich enw ac efallai cynnig swydd I chi fel hyfforddai.
Mae llawer o datwyddion newydd yn treulio hyd at dair blynedd fel hyfforddai gyda thatwydd profiadol, ond gall gymryd hyd at bum mlynedd.
Yma byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio'r offer ac yn datblygu eich sgiliau rhoi tatws yn ogystal a sgiliau busnes.
Gall y Tattoo Club of Great Britain ddarparu gwybodaeth am y maes gwaith hwn.
Mae nifer o artistiaid tatw unigol yn cynnig cyrsiau rhoi tatws. Mae hyd a chost y rhain yn amrywio'n

helaeth.

### Cymwysterau

Ysgol / Profiadau Creadigol ➔ Swydd fel hyfforddai / Cwrs rhoi tatws.

## Athro Celf a Dylunio / Dylunio a Thechnoleg

Llun-Gwener 8.30am-4.00pm (+ oriau ychwanegol)

£ Rhwng £25,000 a £30,000

★ Sgiliau trefnu a chynllunio

### Gweithgareddau Gwaith

Mae athrawon **Celf a Dylunio** ysgolion uwchradd yn helpu myfyrwyr i ddysgu sgiliau celf, dylunio a chrefft amrywiol ag i ddatblygu sgiliau mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys

- lluniadu
- peintio
- cerflunwaith
- graffeg
- dylunio tecstilau
- ffotograffiaeth.

Maent yn annog myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau a'u dychymyg i gyfleu syniadau, teimladau ac ystyron. Maent yn dysgu myfyrwyr am ffyrdd o ddefnyddio a deall celf, crefft a dylunio mewn hanes a chymdeithas, gan gynnwys mewn gwahanol ddiwylliannau o gwmpas y byd.

Maent hefyd yn cynllunio ac yn arwain ymweliadau i leoedd o ddiddordeb fel orielau celf ac amgueddfeydd, sioeau ffasiwn ac arddangosfeydd ffotograffiaeth.

Mae athrawon **Dylunio a Thechnoleg** yn galluogi myfyrwyr i ddylunio a chreu gwrthrychau sydd â defnydd ymarferol. Maent hefyd yn dysgu myfyrwyr sut i droi syniad dylunio'n gynnyrch go iawn, sut I ddatrys problemau ymarferol ac ystyried materion fel iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Yn aml iawn mae myfyrwyr yn defnyddio cynllunio â chymorth cyfrifiadur (CAD) i gwblhau tasgau.
Mae dylunio a thechnoleg yn bwnc eang. Mewn ysgolion, mae'n ymwneud â meysydd fel graffeg, technoleg bwyd, tecstilau, deunyddiau gwrthiannol a systemau a rheolaeth.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- Paratoi a chynllunio gwersi.
- Creu neu addasu adnoddau gwersi.
- Marcio gwaith a rhoi adborth.
- Mynd i gyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni.
- Gosod a gorfodi safonau ymddygiad.
- Nodi disgyblion sy'n tangyflawni a rhoi cymorth ychwanegol os oes angen.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel athro/athrawes celf a dylunio bydd arnoch angen:

- Y gallu i ysgogi, ysbrydoli ac annog myfyrwyr.
- Sgiliau cyfathrebu.
- Y gallu i gadw disgyblaeth ac ymdrin ag ymddygiad anodd.
- Sgiliau trefnu a chynllunio.
- Sgiliau TGCh, gan gynnwys sgiliau cynllunio â chymorth cyfrifiadur (CAD).

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae'n ddibynol ar cymwysterau, profiad a chyfrifoldebau yr athro.

Mae athrawon heb gymhwyso - £16,000 - £25,000
Mae athrawon cymwysedig yn ennill tua £21,500 - £31,500.
Mae 'athrawon uwch-sgiliau' yn ennill tua £37,500 - £57,000.
Mae 'athrawon rhagorol' yn ennill tua £39,500 - £52,000.

**Oriau gwaith**
Mae athrawon fel arfer yn gweithio o 8:30 am neu 9 am tan 3:30 pm neu 4 pm, dydd Llun - Gwener.
Ond mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio oriau ychwanegol yn:
-marcio gwaith,
-paratoi gwersi,
-mynd i gyfarfodydd.
Maent yn gorfod gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn aml.

**Ble gallwn i weithio?**

-Y cyflogwyr yw ysgolion gwladol a phreifat.
-Mae cyfleoedd i ddysgu mewn gwledydd eraill.
-Dysgu'n breifat,
-Marcio arholiadau cenedlaethol.
-Ysgrifennu gwerslyfrau.

## Llwybrau mynediad a Hyfforddiant

Mae'r rhan fwyaf o athrawon Celf a Dylunio yn dilyn cwrs ôl-radd TAR mewn celf/celf a dylunio uwchradd. Mae hyn yn arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).
Bydd angen i chi ymgeisio am le ar gwrs TAR drwy Hyfforddiant Athrawon UCAS
Mae'r cyrsiau fel arfer yn gyrsiau amser-llawn blwyddyn o hyd.

Mae nifer fach o gyrsiau gradd mewn dylunio a thechnoleg addysg uwchradd sy'n arwain at SAC.
Mae'r rhan fwyaf o bobl yn astudio gradd berthnasol â TAR mewn dylunio a thechnoleg addysg uwchradd. Mae rhai cyrsiau'n eich galluogi i arbenigo mewn meysydd penodol megis bwyd a thecstilau.
Cynhelir y cyrsiau fel arfer yn amser-llawn dros flwyddyn.

Opsiwn arall yw cael eich hyfforddi mewn ysgol.
Mae llwyrbrau sy'n seiliedig ar gyflogaeth yn cynnwys:
-School Direct (SCITT)
-Teach First

## Cymwysterau

Athro Celf a Dylunio:

TGAU ➔ Safon Uwch ➔Cwrs Sylfaen ➔Gradd mewn pwnc creadigol ➔ Cwrs TAR

Athro Dylunio a Thechnoleg:
TGAU ➔Safon Uwch ➔ gradd dylunio a thechnoleg addysg uwchradd/ gradd mewn technoleg + Cwrs TAR

Mae ar bob ymgeisydd ar gyfer hyfforddiant athrawon ysgol uwchradd angen TGAU (neu gymwysterau cyfatebol cydnabyddedig) gradd C neu uwch mewn Saesneg Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

## Arlunydd Colur

Oriau yn amrywio'n fawr, (yn cynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)
**£** Rhwng £20,000 a £25,000
★□Y gallu i wneud gwaith agos a manwl iawn

### Gweithgareddau Gwaith

-Mae arlunwyr colur yn sicrhau bod gan bobl sy'n ymddangos ar y teledu, mewn ffilm neu yn y theatr golur a steiliau gwallt addas
-Maent yn rhoi colur cywirol neu golur cymeriad creadigol, yn dibynnu ar y math o gynhyrchiad, a chyfnod a steil y cynhyrchiad. Mae angen paratoi ac ymchwil gofalus ar gyfer hyn.
-Mae gweithgareddau eraill yn cynnws:
-Cadw ffotograffau a nodiadau o ymddangosiad y cymeriad fel y gallant ail-greu'r union golur yn ddiweddarach.
-Creu effeithiau dramatig drwy ddefnyddio brostheteg (sbwng latecs) Bydd yn rhaid iddo/iddi fod yn ymwybodol o unrhyw effeithiau niweidiol y gallant eu cael ar groen unigolyn.
-Bod yn gyfrifol am golur a gwalltiau modelau cyn sesiynau tynnu lluniau ar gyfer cylchgronau ffasiwn, a chyn iddynt ymddangos mewn sioeau ffasiynau.
-Glanhau cyfarpar a wigiau.
-Bod yn barod i weithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel arlunydd colur, bydd arnoch angen:

- Sgiliau creadigol, artistig a dylunio.
- Y gallu i wneud gwaith agos a manwl iawn.
- Sgiliau pobl da, yn cynnwys tact, diplomyddiaeth ac amynedd.
- Hyder a gallu i weithio'n dda o dan bwysau.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Gwybodaeth am dechnegau coluro gwahanol.
- Yn barod i weithio yn yr awyr agored

### Cyflog a Chyfleoedd

#### Cyflog

Mae'n dibynnu ar y math o gynhyrchiad maent yn gweithio arno, hyd y project a pha un ai ydynt yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig.
Maent yn ennill £178 - £469 y dydd. Mae arlunwyr colur cyflogedig yn ennill rhwng £12,500 - £15,500
Gall y swm godi £18,500 - £20,000 gyda phrofiad.
Gall arlunwyr colur profiadol ennill cyflog llawer iawn uwch.

#### Oriau gwaith

Mae oriau gwaith arlunwyr colur yn amrywio'n fawr yn ôl y math o gynhyrchiad maent yn gweithio arno.
Mae arlunwyr colur fel arfer yn gweithio oriau afreolaidd.
Byddant yn dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus.
Gall fod angen teithio i leoliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol hefyd.

#### Ble gallwn i weithio?

Bydd cyfleoedd ar gyfer arlunwyr colur yn fwyaf tebygol o fod ar gael mewn canolfannau darlledu mawr tebyg i Lundain, Birmingham, Manceinion/Salford a Leeds.

Mae gwaith i'w gael gyda:
- Cwmnïau cynhyrchu theatr,
- Ffilm a theledu,
- Gyda ffotograffwyr.

## Llwybrau mynediad a Hyfforddiant

Mae arlunwyr colur fel arfer yn dechrau ar eu gyrfa fel cynorthwywyr colur.
Mae tasgau y cynorthwywyr colur yn cynnwys glanhau cyfarpar a pharatoi cosmetigau.
Bydd y cynorthwywyr yn dysgu 'cyfrinachau'r grefft' trwy arsylwi ar arlunwyr colur profiadol a'u cynorthwyo.
Efallai y bydd angen sawl blwyddyn o brofiad cyn y gellir bod yn gwbl gyfrifol am gynhyrchiad cyfan.

Mae graddau sylfaen , Diplomâu Cenedlaethol Uwch a graddau perthnasol ar gael, sydd â theitlau fel:
-Colur y Cyfryngau
-Colur ac Effeithiau Arbennig
-Dylunio Colur Arbenigol.

Mae Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch Brentisiaeth yn fan cychwyn da hefyd.
Mae cymwysterau eraill, er enghraifft Gwobr Genedlaethol, Tystysgrif neu Ddiploma lefel 3 (BTEC) Edexcel mewn Celfyddydau Cynhyrchu (Coluro) hefyd yn fannau cychwyn posibl.
Mae rhai colegau preifat arbenigol hefyd yn rhedeg cyrsiau ar gyfer arlunwyr colur.

## Cymwysterau

Safon Uwch neu gyfwerth + chymwyster trin gwallt a harddwch + phrofiad gwaith perthnasol

➔ Cwrs Sylfaen

➔ Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch Brentisiaeth / Gwobr Genedlaethol / Diploma lefel 3 (BTEC)

➔ Gradd mewn Coluro

## Curadur Amgueddfa/Oriel Gelf

39 awr yr wythnos (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)
**£** Rhwng £20,000 a £25,000
★□Sgiliau trefnu i gynllunio a rheoli arddangosfeydd

### Gweithgareddau Gwaith

Mae curaduron amgueddfa/oriel gelf yn gyfrifol am gasgliad o arddangosion.
Mae'r gwaith yn cynnwys:
-prynu arddangosion, -
-trefnu arddangosfeydd,
-ysgrifennu catalogau arddangosfeydd a thestun sy'n esbonio arddangosion,
-trefnu staff a delio ag ymholiadau gan y cyhoedd ac ymholiadau ymchwil.
-ymdrin â'r cyhoedd
-trefnu darlithoedd
-rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau.
-Mae codi arian yn rhan gynyddol bwysig o'u gwaith.
- ysgrifennu a llunio catalogau arddangosfeydd a'r testunau sy'n cyd-fynd â'r arddangosion.
- gwneud yn siwr bod gwrthrychau'n cael eu harddangos mewn ffordd glir a deniadol.
- gwaith ymchwil.
- I drefnu arddangosfa, mae curaduron yn dewis pa wrthrychau i'w harddangos ac yn trefnu i fenthyca arddangosion o gasgliadau eraill, os bydd angen. Maen nhw hefyd yn trefnu cludiant, yswiriant a storio gwrthrychau.
- Mae amgueddfeydd neu orielau mawr yn aml yn cyflogi swyddogion addysg i gynnwys ysgolion neu hybu twristiaeth. Gall curaduron weithio gyda nhw i gynhyrchu sleidiau, taflenni gwaith ac arddangosiadau.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel curadur amgueddfa/oriel gelf, bydd angen:

- Sgiliau trefnu i gynllunio a rheoli arddangosfeydd.
- Sgiliau cyfathrebu i weithio gydag aelodau eraill o staff, ateb cwestiynau ymwelwyr a rhoi cyflwyniadau.
- Rhoi sylw i fanylion wrth ymchwilio a chatalogio gwrthrychau.
- Sgiliau busnes a marchnata.
- Y gallu creadigol i wneud arddangosiad neu arddangosfa yn apelgar.
- Sgiliau ysgrifennu i gynhyrchu deunyddiau fel disgrifiadau a chatalogiau arddangosfeydd, deunyddiau cyhoeddusrwydd a cheisiadau am grantiau.
- Sgiliau rhifiadol a phenderfynu er mwyn rheoli cyllidebau.
- Y gallu i ddylanwadu, darbwyllo a thrafod, er enghraifft, wrth geisio cael cyllid.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae curaduron yn ennill tua £23,500 - £27,000 y flwyddyn,
Gall godi i tua £33,500 - £40,000 gyda phrofiad.
Gall pobl mewn swyddi uwch reoli ennill mwy na £50,000 y flwyddyn.

**Oriau gwaith**

Mae curaduron yn gweithio wythnos 39 awr sylfaenol
Efallai y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos, yn enwedig wrth i derfynau amser ar gyfer arddangosfeydd nesáu.

**Ble allwn i weithio?**

Mae cyflogwyr yn cynnwys amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, awdurdod lleol ac annibynnol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae'r rhan fwyaf o guraduron yn dechrau fel curaduron iau neu gynorthwyol.

Fel arfer, bydd angen gradd mewn pwnc sy'n berthnasol i faes arbenigol yr amgueddfa neu'r oriel, er enghraifft:

- anthropoleg

- archaeoleg

- hanes celf

- hanes

- clasuron

- gwyddorau, er enghraifft, daeareg.

Mae cael graddau mewn pynciau fel astudiaethau amgueddfeydd a rheoli treftadaeth yn fanteisiol.
Mae'n syniad da cael profiad gwaith cyflogedig neu wirfoddol perthnasol.
Mae Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch Brentisiaeth hefyd yn fan cychwyn da.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon uwch neu gyfwerth / Prentisiaeth ➔ Gradd ➔ Ôl-radd

Mae dewisiadau amgen yn lle lefel A yn cynnwys:

- Cymwysterau Cenedlaethol Edexcel (BTEC) Lefel 3.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

## Darlunydd

39 awr yr wythnos, Llun - Gwener
£ Rhwng £20,000 a £25,000
★ Dychymyg creadigol

### Gweithgareddau Gwaith

Mae darlunwyr yn cynhyrchu lluniau, delweddau, paentiadau neu ddiagramau i gyfathrebu syniadau neu wybodaeth yn weledol, neu i wneud cynnyrch neu ryw wybodaeth yn haws i'w deall neu ymddangos yn fwy deniadol.

Mae darlunwyr yn defnyddio ystod o dechnegau artistig a graffig, gan greu darluniau ar gyfer amrywiaeth o feysydd, fel:

- llyfrau a chloriau llyfrau
- deunydd cyfeirio
- cyhoeddusrwydd a hysbysebion
- gwefannau ac adroddiadau
- llawlyfrau cyfarwyddiadau neu ddeunydd hyfforddiant/addysgol.

Mae darlunwyr yn dechrau eu gwaith o friff, gan gleient. Mae hyn fel arfer yn amlinellu:

- pa wybodaeth sydd angen i ddefnyddiwr ei chael o'r darlun
- pa fath o gynnyrch y mae angen ei ddarlunio
- yr arddull, thema neu naws
- at bwy y mae wedi ei anelu, ee, myfyrwyr, technegwyr, prynwyr ffasiwn
- y graddfeydd amser a'r cyllidebau cysylltiedig.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel darlunydd, bydd angen:

- Dychymyg creadigol.
- Gweithio'n dda gan ddefnyddio technegau celf wahanol.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Gwybodaeth am feddalwedd graffeg gyfrifiadurol a delweddau digidol.
- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Gweithio i derfynau amser a chyllidebau.
- Os ydych yn gweithio fel darlunydd hunangyflogedig neu lawrydd, bydd angen sgiliau busnes a marchnata arnoch.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae'r cyfraddau cyflog a roddir isod yn amcangyfrif.

Mae darlunwyr cyflogedig yn ennill rhwng £18,000 - £25,500 y flwyddyn.
Gall godi i rhwng £26,500 - £40,000 y flwyddyn.
Mae cyfraddau cyflog dylunwyr sy'n gweithio ar liwt eu hunain yn amrywio yn ôl y gwaith.
Mae rhai darlunwyr yn cyfuno dylunio graffeg gyda darlunio er mwyn cadw incwm da.

**Oriau gwaith**
Mae darlunwyr cyflogedig fel rheol yn gweithio 39 awr yr wythnos, Llun i Gwener.
Mae cyfleon rhan-amser hefyd ar gael.
Mae darlunwyr hunan-gyflogedig yn gosod eu horiau eu hunain, a all fod yn anghyson, yn dibynnu ar faint o waith sydd gyda nhw.
Bydd angen gorffen yn hwyr o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i ddyddiadau cau nesau.

**Ble gallaf weithio?**
Mae darlunwyr masnachol yn ennill gwaith wrth
- gyhoeddwyr,
- asiantaethau hysbysebu,
- y diwydiant darlledu
- busnesau masnachol.

Mae'r rhan fwyaf o ddarlunwyr yn hunan-gyflogedig ac yn aml yn gweithio gartref.
Gallant hyrwyddo eu gwaith ar-lein drwy'r rhyngrwyd felly nid yw'r lleoliad mor bwysig ar gyfer darlunwyr hunan-gyflogedig.
Mae rhai defnyddio gwasanaethau asiant er mwyn ennill commisiynau a gwaith contract byr dymor.
Mae rhai darlunwyr yn hysbysebu drwy eu gwefannau eu hunain.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae angen gradd mewn darlunio neu bwnc perthnasol.
Mae Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch Brentisiaeth yn fan cychwyn da.
Gall darlunwyr gyda phrofiad sydd wedi gweithio mewn amgylchedd masnachol hefyd gael mynediad i'r proffesiwn.
Llwybrau eraill tuag at gwrs gradd fyddai Graddau Sylfaen, HNCau a HNDau perthnasol
Byddai pynciau fel dylunio graffeg, a chelf a dylunio yn ddefnyddiol iawn.
Mae Cyrsiau Sylfaen mewn Celf a Dylunio ar gael a gallant gael eu defnyddio fel llwybr i gyrsiau gradd.
Mae yna hefyd gyrsiau ôl-radd mewn darlunio. Mae rhai yn canolbwyntio ar feysydd penodol, er enghraifft, llyfrau plant.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth / Prentisiaeth ➔ HNC/HND/Cwrs Sylfaen ➔ Gradd  Ol-radd

## Darlunydd Masnachol

39 awr, Llun-Gwener (ond yn gallu amrywio)

£ Rhwng £20,000 a £25,000

★ Sgiliau TG

### Gweithgareddau Gwaith

Mae darlunwyr masnachol yn cynhyrchu lluniadau, delweddau, paentiadau neu ddiagramau i gyfleu syniadau neu wybodaeth yn weledol, neu i wneud cynnyrch yn haws ei ddeall neu fel bod cynnyrch yn ymddangos yn fwy deniadol.

Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau artistig a graffig, gan gynhyrchu darluniadau ar gyfer amrywiaeth fawr o gynhyrchion, fel:

- gwefannau
- cylchgronau ffasiwn
- pamffledi a thaflenni
- cardiau cyfarch
- pecynnu.

Gwelwn y cynhyrchion hyn yn eitemau rydym yn eu prynu mewn siopau. Mae'n cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i hysbysebu a gwerthu cynnyrch, i wneud i rywbeth edrych yn ddeniadol, ac i helpu i ddarlunio stori, fel lluniadau mewn llyfr neu gylchgrawn.

Mae darlunwyr masnachol yn dechrau eu gwaith o'r briff sy'n cael ei roi gan gleient, er enghraifft, cwmni sy'n lansio cynnyrch newydd neu asiantaeth hysbysebu. Mae'r briff yn amlinellu:

- pa wybodaeth y mae angen i'r defnyddiwr ei chael o'r darluniad
- pa fath o gynnyrch y mae angen ei ddarlunio
- yr arddull, y thema neu'r naws
- pwy mae'r cynnyrch wedi'i anelu ato
- yr amserlen a'r gyllideb sy'n gysylltiedig.

Gallai fod angen i ddarlunwyr greu bwrdd stori, sef cyfres o ddarluniadau, yn aml gyda thestun, yn dangos sut byddai un yn dilyn ymlaen o'r llall, er enghraifft mewn llyfr.

Byddant wedyn yn mynd ati I wneud y cynhyrchiad terfynol, ar ol I'w syniadau gael eu cymeradwyo gan y cleient.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel darlunydd masnachol, bydd arnoch angen:

- Dychymyg creadigol.
- Gweithio'n dda gan ddefnyddio technegau a chyfryngau celf gwahanol.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Sgiliau TG.

- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Gweithio i derfynau amser a chyllidebau.
- Ymwybyddiaeth fasnachol.

Bydd darlunydd hunangyflogedig neu ar eich liwt eich hun, angen sgiliau busnes a marchnata arnoch chi.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae’r cyflog yn amrywio yn ôl y diwydiant a'r math o waith maent yn ei dderbyn.
Mae darlunwyr masnachol cyflogedig yn ennill rhwng £18,000 a £25,500 y flwyddyn,
Gall godi i ryw £26,500 i £40,000 y flwyddyn.
Mae'r cyfraddau cyflog ar gyfer darlunwyr hunangyflogedig yn amrywio yn ôl y gwaith.
Gall enillion darlunwyr masnachol hunangyflogedig fod yn isel ar y dechrau a gallan nhw amrywio yn ôl y llwyth gwaith pan fydd darlunydd wedi sefydlu'i hun.
Mae rhai darlunwyr masnachol yn cyfuno dylunio graffeg gyda darlunio er mwyn cynnal incwm digonol.

**Oriau gwaith**
Fel arfer, mae darlunwyr masnachol cyflogedig yn gweithio wythnos sylfaenol o 39 awr, Llun - Gwener.
Mae cyfleoedd rhan-amser ar gael.
Mae darlunwyr masnachol hunangyflogedig yn penderfynu ar eu horiau eu hunain,
Gall hyn fod yn afreolaidd yn dibynnu ar faint o waith sydd ganddyn nhw.
Ond bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser agosáu.

**Ble allen i weithio?**
Mae cyflogwyr yn cynnwys cyhoeddwyr, asiantaethau hysbysebu, y diwydiant darlledu a busnesau masnachol.
Mae cyfleoedd i ddarlunwyr ar gael gyda chyflogwyr mewn trefi a dinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig.Mae'r rhan fwyaf o ddarlunwyr masnachol yn hunangyflogedig ac yn aml yn gweithio gartref.
Ond mae’r gallu iddynt hyrwyddo’u gwaith ar-lein yn golygu bod eu lleoliad yn llai pwysig.
Mae rhai darlunwyr sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn defnyddio gwasanaeth asiantau i ennill comisiynau a gwaith dan gontract byr dymor.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch yn fan cychwyn da.
Ond mae angen gradd mewn darlunio neu bwnc perthynol ar ddarlunwyr masnachol.
Gallai darlunwyr profiadol sydd wedi gweithio mewn amgylchedd masnachol gael swydd yn y proffesiwn hwn hefyd.

Yn ogystal, gallai fod yn bosibl dechrau yn yr yrfa hon trwy radd mewn pwnc mwy cyffredinol, fel celf neu ddylunio graffeg.
Mae graddau sylfaen, HNC A HND perthnasol ar gael ac yn gallu cael eu defnyddio fel ffordd o gael lle ar gwrs gradd.
Pynciau fel dylunio graffeg, a chelf a dylunio fyddai'n fwyaf defnyddiol.Mae gwneud Cwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio hefyd yn ffordd o gael lle ar gwrs gradd.
Mae Cymdeithas y Darlunwyr (AOI) yn cynnig seminarau a digwyddiadau hyfforddi i aelodau.
Hefyd, mae cyrsiau ôl-raddedig mewn darlunio ar gael sy’n canolbwyntio ar feysydd penodol, er enghraifft, llyfrau plant.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Sylfaen / HND / HNC ➔ Gradd

Mae cymwysterau sy'n dderbyniol yn lle Safon Uwch yn cynnwys:

- Diploma Cenedlaethol Lefel 3 BTEC mewn Celfyddyd Gain neu bwnc perthynol.

Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol

## Dylunydd Arddangosfeydd

39 awr, Llun-Gwener

£ Rhwng £30,000 a £40,000

★ Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr arddangosfeydd yn dylunio ac yn goruchwylio'r broses o greu prosiectau arddangosfa. Gall prosiectau arddangosfeydd fel arfer gynnwys dylunio stondinau arddangosfeydd unigol, neu drefnu a dylunio cynllun safle arddangosfa gyfan.

Mae prosiectau dylunio mewnol yn dechrau gyda briff dylunio, cyn gwneud gwaith ymchwil manwl. Mae brasluniau a dyluniadau bras yn cael eu cynhyrchu. Mae dylunwyr arddangosfeydd yn dilyn proses o ymchwilo, ymgynghori, adborth, brasluniau, dyluniadau a modelau gwaith.

Mae arddangosfeydd yn cael eu cynnal mewn nifer o leoliadau gwahanol, felly mae'n rhaid i ddylunwyr arddangosfeydd allu addasu eu syniadau i weddu i'r lleoliad. Mae trefn a chynllun arddangosfa amgueddfa, er enghraifft, yn gallu creu naws ac awyrgylch wahanol i arddangosfa fasnach.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel dylunydd mewnol/arddangosfeydd, byddwch angen:

- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Bod yn greadigol ac yn artistig.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd ym maes dylunio.
- Gweithio o fewn terfynau amser a chyllidebau cyfyngedig.
- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Sgiliau datrys problemau.
- Dealltwriaeth o reoliadau adeiladu a diogelwch.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**

Mae cyflogau dylunwyr arddangosfeydd yn amrywio yn ôl y diwydiant a chyfrifoldebau.

Mae dylunwyr mewnol/arddangosfeydd yn ennill tua £18,000 - £21,000,
gan godi i £25,000 - £30,000 gyda phrofiad.
Gall rhai ar gyflogau uwch ennill tua £50,000 y flwyddyn.

**Oriau gwaith**

Maent fel arfer yn gweithio wythnos sylfaenol o 39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Gall oriau gwaith dylunwyr hunangyflogedig fod yn afreolaidd, yn dibynnu ar y prosiect maen nhw'n gweithio arno.
Efallai y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser agosáu.

**Ble allwn i weithio?**

Mae'r rhan fwyaf o ddylunwyr arddangosfeydd yn dechrau eu gyrfaoedd fel cynorthwywyr dylunio mewn ymgynghoriaethau dylunio
Mae cyfleoedd i'w cael i ddylunwyr arddangosfa weithio yn hunangyflogedig mewn ymgynghoriaethau neu drwy waith cytundeb cyfnod penodol.
Gallwch gael gwaith o'r fath trwy asiantaethau recriwtio arbenigol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybr cyffredin i mewn i'r yrfa hon yw gwneud cwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio
- yna astudio am radd, HND neu radd sylfaen mewn pwnc fel dylunio mewnol neu ddylunio gofodol.
Gall y Sefydliad Dylunio Mewnol Prydain (British Institute of Interior Design) ddarparu rhestr o gyrsiau perthnasol.

Bydd y rhan fwyaf o'ch hyfforddiant yn digwydd yn y gwaith.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔Cwrs Sylfaen ➔Gradd Sylfaen / HND / Gradd

Mae cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch yn cynnwys:

- Diploma Cenedlaethol BTEC Lefel 3 mewn Celf a Dylunio.
- Prentisiaeth Lefel Uwch mewn Dylunio.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (IBD).

## Dylunydd Cerameg

39 awr, Llun-Gwener

£ Rhwng £20,000 a £25,000

★ Amynedd - mae'n gallu cymryd sawl wythnos i orffen cynnyrch.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr cerameg yn creu dyluniadau ar gyfer cynhyrchion crochenwaith. Maen nhw'n gweithio naill ai mewn diwydiant, neu fel crochenwyr /crefftwyr-dylunwyr sydd fel arfer yn hunangyflogedig neu'n gweithio i gwmnïau bach.
Mae dylunwyr cerameg sy'n gweithio mewn diwydiant yn dylunio nwyddau ar gyfer masgynhyrchu ac yn gweithio yn ôl briff. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau fel:

- llestri bwrdd a ffwrn
- teils llawr a waliau
- ffitiadau ystafell ymolchi, ee, toiledau a basnau ymolchi.

Mae crochenwyr neu grefftwyr-dylunwyr fel arfer yn gweithio mewn stiwdios a gweithdai. Maen nhw'n cynhyrchu nwyddau ar raddfa fach ac yn gyffredinol, maen nhw'n cael mwy o gyfle i fod yn greadigol. Gallai'r rhain gynnwys eitemau ymarferol fel llestri cinio neu ddarnau addurnol unigryw. Maen nhw'n defnyddio dulliau crefft traddodiadol gan ddefnyddio olwyn crochenydd neu gastin slip, lle mae clai gwlyb yn cael ei arllwys i fowld.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel dylunydd cerameg, byddwch angen:

- Sgiliau creadigol ac artistig.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Amynedd - mae'n gallu cymryd sawl wythnos i orffen cynnyrch.
- Dealltwriaeth o brosesau cynhyrchu.
- Y gallu i newid syniadau yn ddyluniad tri dimensiwn .
- Gweithio o fewn terfynau amser a chyllidebau.
- Gwybodaeth am feddalweddsy'n ymwneud â dylunio.
- Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ddylunwyr cerameg hunangyflogedig
- Caiff sgiliau a ddatblygwyd fel cynorthwyydd mewn stiwdio neu weithdy dylunio eu gwerthfawrogi.
- Bydd ymwybyddiaeth fasnachol a dealltwriaeth o'r diwydiant cerameg o fantais.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**

Mae dylunwyr cerameg yn ennill tua £16,000 - £20,000 y flwyddyn,
Gall godi i £25,500 - £35,000 gyda phrofiad.
Gall dylunwyr mwy profiadol ennill cyflog dros £45,000.
Bydd rhai hefyd yn gwneud gwaith mewn maes arall i ychwanegu at eu hincwm.

**Oriau gwaith**

Mae dylunwyr cerameg fel arfer yn gweithio wythnos sylfaenol 39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Efallai y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau yn enwedig wrth nesu at derfynau amser.
Bydd dylunwyr hunangyflogedig yn gweithio oriau afreolaidd, yn dibynnu ar faint o waith sydd ganddyn nhw i'w wneud o un wythnos i'r llall.

**Ble allwn i weithio?**

Mae rhai yn gweithio mewn ymgynghoriaethau dylunio a siopau mawr. Mae rhai cwmnïau yn arbenigo ar waith penodol, fel gwneud teils ceramig.
Mae cyfleoedd i'w cael i ddylunwyr cerameg fynd yn hunangyflogedig i sefydlu busnes fel crefftwyr-dylunwyr a gweithio o gartref neu mewn gweithdy.
Gallant hyrwyddo eu gwaith ar-lein drwy'r rhyngrwyd, s'yn golygu bod lleoliad yn llai pwysig i grefftwyr-dylunwyr hunangyflogedig.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybr cyffredin i mewn i'r yrfa hon yw drwy gwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio-
wedi'i ddilyn gan radd, HNC, HND neu radd sylfaen mewn pwncfel cerameg neu ddylunio cerameg.
Mae rhai cyrsiau dylunio tri dimensiwn yn cyfuno cerameg ag astudio deunydd arall, fel gwydr, plastig, metel a phren.
Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd yn fan cychwyn da hefyd.
Bydd hyfforddiant fel arfer yn digwydd yn y gwaith.
Bydd rhai crochenwyr/crefftwyr-dylunwyr wedi dysgu eu hunain.

## Cymwysterau

TGAU ➔Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd

Mae cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch yn cynnwys:

- Diploma CenedlaetholBTEC lefel 3 mewn Celf a Dylunio.
- Prentisiaeth Lefel Uwch.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol

## Dylunydd Ffasiwn

39 awr, Llun-Gwener (ond yn gallu amrywio)

£ Rhwng £25,000 a £30,000

★ Dealltwriaeth o wahanol fathau o ddefnydd a dulliau gwneud dillad

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr ffasiwn yn creu dyluniadau ar gyfer dillad sy'n dilyn neu'n rhagfynegi tueddiadau ffasiwn, ac sy'n apelio at brynwyr posibl. Fe allent arbenigo mewn gwahanol fathau o ddillad, fel dillad plant neu ddillad chwaraeon.

Haute couture yw'r maes dylunio ffasiwn anoddaf i gael mynediad. Maent yn creu dillad ar gyfer cleientiaid unigol ac yn cynhyrchu casgliadau tymhorol sy'n dylanwadu ar weddill y diwydiant ffasiwn. Mae dylunwyr ffasiwn 'parod i'w wisgo' yn creu dillad o ansawdd da i'w gwerthu mewn siopau dethol ym 'mhen ucha'r farchnad'. Maent naill ai'n dilyn y duedd haute couture neu'n creu eu steil eu hunain. Pan fydd y dillad yn cael eu cynhyrchu, mae dylunwyr ffasiwn yn rhoi cyngor ac yn datrys unrhyw broblemau sy'n codi gyda thorri neu bwytho. Maent yn goruchwylio'r broses rheoli ansawdd.

Efallai y bydd dylunwyr ffasiwn hefyd yn mynd i ffeiriau masnach i gael gwybod am fathau newydd o ddefnydd a dyluniadau neu i ddod o hyd i gyflenwyr newydd. Gallai'r gwaith olygu teithio'n lleol, yn genedlaethol ac weithiau dramor.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn ddylunydd ffasiwn, bydd arnoch angen:

- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a negodi da.
- Sgiliau creadigol ac artistig.
- Hyblygrwydd i addasu dyluniadau i weddu i anghenion cleientiaid.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Dealltwriaeth o wahanol fathau o ddefnydd a dulliau gwneud dillad.
- Diddordeb mewn ffasiwn a thueddiadau ffasiwn newydd.
- Y gallu i weithio o fewn terfynau amser a chyllidebau.
- Gwybodaeth am feddalwedd sy'n gysylltiedig â dylunio.
- Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ddylunwyr ffasiwn sy'n hunangyflogedig neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain.

### Cyflog a Chyfleoedd

#### Cyflog

Mae'r cyfraddau cyflog ar gyfer dylunwyr ffasiwn yn amrywio yn unol â'r cyflogwr a chyfrifoldebau.Mae dylunwyr ffasiwn yn ennill tua £16,000 - £20,000 y flwyddyn-

gan gynyddu i £25,500 - £35,000.
Mae uwch ddylunwyr ffasiwn yn gallu ennill tua £45,000, ac mae cyflogau uwch yn bosibl.

### Oriau gwaith

39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Mae oriau gwaith dylunwyr hunangyflogedig yn afreolaidd, yn dibynnu ar y prosiect maent yn gweithio arno.
Mae'n bosibl y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser nesáu.

### Ble allen i weithio?

Gweithgynhyrchwyr cyfanwerthol mawr sy'n cyflogi'r nifer fwyaf o ddylunwyr ffasiwn.
Mae cyfleoedd eraill yn codi gyda manwerthwyr mawr.
Ond, mae llawer o gwmnïau dylunio ffasiwn yn fusnesau bach sy'n cyflogi ychydig o ddylunwyr yn unig.
Yn draddodiadol, mae cwmnïau dillad wedi'u lleoli yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Llundain a'r Alban.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybr cyffredin i'r yrfa hon yw trwy gwrs sylfaen mewn Celf a Dylunio-
ac yna gradd, HNC, HND neu radd sylfaen mewn pwnc fel dylunio ffasiwn.
Mae unrhyw fath o brofiad cyn mynediad yn ddefnyddiol, gan fod yr yrfa hon yn un boblogaidd iawn.
Mae llawer o ddylunwyr ffasiwn newydd yn cael profiad dramor.
Mae llawer o ddylunwyr ffasiwn newydd yn dechrau mewn swyddi iau, gan weithio gyda dylunwyr mwy profiadol, ac ennill sgiliau a phrofiad wrth fynd ymlaen.
Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch yn gallu bod yn fan cychwyn da hefyd.
Byddwch yn cael y rhan fwyaf o'ch hyfforddiant yn y gwaith.
Mae llawer o ddylunwyr yn mynd yn hunangyflogedig.
Gyda phrofiad, mae rhai yn symud i rolau uwch mewn sefydliad.
Mae profiad mewn meysydd fel hysbysebu neu farchnata, yn ddefnyddiol hefyd.
Mae ymwybyddiaeth fasnachol a dealltwriaeth o'r diwydiant ffasiwn o fantais.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth / Prentisiaeth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd Sylfaen / HNC / HND / Gradd

## Dylunydd Gemwaith

39 awr, Llun-Gwener (ond yn gallu amrywio)

£ Rhwng £20,000 a £25,000

★ Sgiliau gwaith llaw da.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr gemwaith/arian yn creu cynlluniau ar gyfer amrywiaeth eang o emwaith, gwaith arian ac eitemau eraill o gynhyrchion metel defnyddiol ac addurnol.
Gellir defnyddio'r cynlluniau ar gyfer mas gynhyrchu neu ar gyfer eitemau crefft gwaith llaw.

Mae rhai cynllunwyr yn arbenigo mewn un maes o'r fasnach, fel horoleg (Dyluniad, gwneuthuriad a thrwsio watsiau a chlociau).
Mae'r crefftau a ddefnyddir i wneud gemwaith yn cynnwys torri a gosod gemau, mowntio, ysgythru, gwneud cadwyni, glanhau a llathru. Mae rhai dylunwyr yn creu darnau un-tro o emwaith neu waith arian â llaw.

Gallai darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais wrth chwilio am waith yng Nghymru.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn ddylunydd gemwaith/arian, bydd angen i chi gael:

- Sgiliau gwaith llaw da.
- Amynedd.
- Llygad craff.
- Sgiliau creadigol ac artistig.
- Y gallu i newid syniadau yn gynllun tri-dimensiwn.
- Gwybodaeth am y newidiadau a'r ffasiynau diweddaraf o ran dylunio gemwaith/arian.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Gwybodaeth am feddalwedd dylunio.

Bydd angen sgiliau marchnata a busnes ar ddylunwyr gemwaith/arian hunangyflogedig neu lawrydd.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae cyfraddau cyflog ar gyfer dylunwyr gemwaith/arian yn amrywio yn ôl cyflogwr a chyfrifoldebau.
Mae dylunwyr gemwaith/arian yn ennill rhwng £16,000 a £20,000 y flwyddyn-
sy'n codi i rhwng £25,500 a £35,000 y flwyddyn, yn ôl profiad.
Gall gweithwyr ar gyflog uwch ennill cyflog sydd dros £45,000.

Mae gweithwyr hunangyflogedig yn debygol o ennill cyflog ar waelod y raddfa, yn enwedig wrth gychwyn gweithio.

**Oriau Gwaith**
39 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Gall fod angen gweithio'n hwyr ac ar benwythnosau, yn enwedig pan fydd terfynau amser yn agosau.
Gallant fod yn gweithio oriau afreolaidd, yn ôl y gwaith sydd ganddyn nhw o wythnos i wythnos.

**Ble gallwn i weithio?**
Busnesau sy'n cynhyrchu gemwaith, gwaith arian a chytleri yw'r cyflogwyr.

Llundain - y ganolfan draddodiadol ar gyfer gemwaith cain.
Birmingham - cartref i amrywiaeth eang o fusnesau cynhyrchu gemwaith cain a gemwaith addurnol, llunio bathodynnau, a gwaith gof aur ac arian.
Sheffield – sy'n enwog am gynnyrch cytleri arian a dur.

Mae cyfleoedd i ddylunwyr gemwaith/arian fod yn hunangyflogedig yn gweithio gartref, yn rhannu stiwdio neu weithdy.
Gan fod gan grefftwyr-dylunwyr y gallu i hyrwyddo eu gwaith ar-lein trwy'r rhyngrwyd, mae lleoliad eu gweithle yn llai pwysig.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybr cyffredin i'r yrfa hon yw trwy wneud Cwrs sylfaen mewn Celf a Dylunio
ac yna gradd, HND neu radd sylfaen mewn pwnc fel gemwaith neu emwaith a gwaith gof arian.
Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd yn fan cychwyn da hefyd.
Byddwch yn cael rhywfaint o'ch hyfforddiant yn y gwaith.
Mae'r Jewellery & Allied Industries Training Council (JAITC) yn darparu gwybodaeth am gyrsiau a darparwyr cyrsiau.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth / Prentisiaeth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd Sylfaen / HND / Gradd

## Dylunydd Graffeg

39 awr yr wythnos (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)
£ Rhwng £20,000 - £25,000

★ Sgiliau TG.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr graffeg yn creu dyluniadau i gyfleu neges benodol neu i greu effaith weledol. Maent yn creu dyluniadau ar gyfer ystod eang o gynhyrchion, gan gynnwys:

- gwefannau a gemau cyfrifiadurol
- cloriau llyfrau
- posteri, taflenni a llyfrynnau
- cylchgronnau
- papur ysgrifennu a logos
- deunyddiau pacio ac arddangosiadau ar gyfer arddangosfeydd.
- creu graffeg neu effeithiau arbennig ar gyfer rhaglen, eitem newyddion neu ffilm.

Mae union rôl dylunydd graffeg yn dibynnu llawer ar ble mae'n gweithio a maes y diwydiant. Er enghraifft, mewn sefydliad bach, efallai y bydd dylunwyr graffeg yn gwneud amrywiaeth eang o dasgau dylunio. Mewn sefydliad mawr, efallai y byddan nhw'n arbenigo mewn un maes graffeg ac un math o gynnyrch.
Efallai y bydd dylunwyr graffeg hunangyflogedig yn gwneud pob agwedd ar brosiect dylunio.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I wneud yn dda yn yr yrfa hon, bydd arnoch chi angen:

- Sgiliau creadigol a syniadau gwreiddiol.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod da.
- Gweithio'n dda ar eich pen eich hun ac â phobl eraill.
- Sgiliau TG.
- Rhoi sylw i fanylion.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Gweithio oddi mewn i derfynau amser a chyllidebau.

- Sgiliau datrys problemau.
- Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ddylunwyr graffeg hunangyflogedig neu rai sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae cyfraddau cyflog dylunwyr graffeg yn amrywio yn ôl y diwydiant a'u cyfrifoldebau.
Mae dylunwyr graffeg cyflogedig yn ennill tua £18,000 - £21,000 y flwyddyn-
gan godi i tua £25,000 - £35,000 y flwyddyn.
Gall swyddi uwch ennill cyflogau uwch hyd at £45,000.
Mae rhai dylunwyr graffeg yn cael taliadau bonws yn gysylltiedig ag elw ar ben eu cyflog.

**Oriau gwaith**
Fel arfer, mae dylunwyr graffeg yn gweithio wythnos sylfaenol o 39 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Gallai oriau gwaith fod yn afreolaidd, gan ddibynnu ar faint o waith sydd ganddyn nhw o un wythnos i'r llall.
Gall fod angen iddynt weithio'n hwyr ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser nesáu.

**Ble allen i weithio?**
Mae cyflogwyr ar draws y DU yn cynnwys:

- asiantaethau hysbysebu
- stiwdios dylunio graffeg
- cwmnïau cyhoeddi
- cyhoeddi print traddodiadol a chyhoeddi electronig
- cwmnïau yn y cyfryngau darlledu.
- Yn y diwydiant teledu, fideo a ffilmiau
- Adrannau dylunio cwmnïau masnachol
- Mewn ymgyngoriaethau dylunio

Mae'r gallu i unigolion hyrwyddo eu gwaith ar-lein dros y rhyngrwyd yn golygu bod lleoliad yn llai pwysig i ddylunwyr graffeg hunangyflogedig.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybr cyffredin yw cwblhau Cwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio wedi'i ddilyn gan radd mewn dylunio graffeg.
Cadwch lygad allan am gyrsiau â theitlau eraill, gan gynnwys:
- cyfathrebu graffig
- cyfathrebu gweledol
- brandio a hunaniaeth graffig.

Cofiwch edrych ar y cynnwys yn fanwl cyn penderfynu pa gwrs fydd orau i chi.
Mae gan Creative Skillset, corff y diwydiant, restr o gyrsiau prifysgol achredig ar ei wefan.
Pan fyddwch chi'n gweithio, byddwch chi'n datblygu'ch sgiliau trwy ddysgu oddi wrth ddylunwyr eraill neu trwy fynd ar gyrsiau hyfforddi byr neu ran-amser.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd

## Dylunydd Gwisgoedd

40 awr yr wythnos + (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)

£ Rhwng £20,000 - £25,000

★ Diddordeb mewn theatr, drama, ffasiwn, celf neu hanes.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr gwisgoedd yn gweithio ar gynyrchiadau theatr, ffilm neu deledu. Maen nhw'n dylunio a dewis sy'n gweddu i gymeriadau a lleoliadau penodol. Mae'n bosibl creu gwisgoedd, eu llogi neu eu prynu o siopau dillad ail law.

Cyn dechrau, rhaid darllen y sgript yn fanwl a gwneud ymchwil manwl, yn enwedig os ydyn nhw'n dylunio gwisgoedd cyfnod.
Yna bydd yn cyflwyno'i syniadau dylunio ar ffurf darluniau a samplau o ddefnydd. Ar ôl i'r syniadau gael eu cymeradwyo, maen nhw'n mesur aelodau'r cast.

Mae dylunwyr gwisgoedd yn cael cyllideb ac maen nhw'n ei defnyddio i brynu defnydd, neu i logi/prynu beth bynnag nad oes modd ei greu. Maen nhw'n trefnu sesiynau ffitio gwisgoedd gydag aelodau'r cast, ac yn addasu'r gwisgoedd os oes angen.
Mae dylunwyr gwisgoedd yn gweithio'n agos gyda chyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, technegwyr, dylunwyr golau a dylunwyr setiau, yn ogystal â'r perfformwyr. Mae hyn yn helpu i gynhyrchu dyluniadau sy'n gweddu i edrychiad cyffredinol y cynhyrchiad. Mae angen iddyn nhw reoli cysondeb y gwisgoedd o fewn y cynhyrchiad.

Y cyfarwyddwr sydd fel arfer yn cael y gair olaf ar bob agwedd ar y cynhyrchiad. Efallai y bydd rhai yn gadael i'r dylunydd gwisgoedd gael llawer o ryddid creadigol. Mae eraill yn hoffi rhoi canllawiau manwl gan ddisgwyl i'r dylunydd gwisgoedd eu dilyn.

Wedi i'r ffilmio ddod i ben, mae'r dylunwyr gwisgoedd yn gyfrifol am storio gwisgoedd, am ddychwelyd gwisgoedd sydd wedi'u llogi, ac am werthu neu gael gwared ar unrhyw wisgoedd sy'n weddill.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel dylunydd gwisgoedd, byddwch angen:

- Dealltwriaeth o wniadwaith.
- Gallu i ddarlunio'n glir a chywir.
- Rhoi sylw i fanylion cywrain.
- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Diddordeb mewn theatr, drama, ffasiwn, celf neu hanes.
- Cadw llygad ar ddatblygiadau newydd ym maes dylunio a ffasiwn.
- Gweithio o fewn terfynau amser a chyllidebau.
- Gwybodaeth am dechnegau goleuo, onglau camera a phrosesau cynhyrchu yn gyffredinol.
- Bydd dylunwyr gwisgoedd hunangyflogedig neu annibynnol angen sgiliau busnes a marchnata.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Mae dylunwyr gwisgoedd preswyl cyflogedig yn y theatr yn ennill tua £16,000 - £20,000 y flwyddyn, gan godi i £25,500 - £35,000 mewn swyddi uwch.
Mae dylunwyr ar eu liwt eu hun yn ennill o tua £2,000 - £3,000 am bob cynhyrchiad ac mae cyfraddau uwch yn bosibl .
Mae cyflog dylunwyr gwisgoedd hunangyflogedig yn amrywio, yn dibynnu ar y math o gynhyrchiad.
Mae'n dechrau o tua £500 yr wythnos i ddylunydd gwisgoedd cynorthwyol
i tua £800 yr wythnos i uwch ddylunydd gwisgoedd.

**Oriau gwaith**
Fel arfer, mae dylunwyr gwisgoedd yn gweithio wythnos sylfaenol o 40 awr.
Efallai y bydd angen dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr, gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i ddylunwyr gwisgoedd weithio oriau maith am gyfnodau, yn enwedig yn ystod y cyfnod sy'n arwain at gynhyrchiad.

**Ble allwn i weithio?**
Mae cyflogwyr yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu theatr, teledu a ffilm.
Mae rhai cyfleoedd i'w cael mewn cwmnïau gwisgoedd arbenigol.

Llundain, Birmingham, Manceinion a Leeds- ble mae'r prif ganolfannau cynhyrchu theatr/teledu wedi'u lleoli.

Mae'r rhan fwyaf o ddylunwyr gwisgoedd yn gweithio ar sail hunangyflogedig,
Maen nhw fel arfer yn cael eu cyflogi ar gytundebau byr ac mae'n bosibl y byddan nhw'n symud o un cynhyrchiad i'r llall mewn theatr, teledu a ffilm.
Gallwch gael gwaith o'r fath drwy asiantaethau recriwtio arbenigol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Ffordd gyffredin i mewn i'r yrfa hon yw drwy gwblhau cwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio ,
Cyn mynd ymlaen i gwblhau gradd, HNC, HND neu radd sylfaen mewn pwnc fel dylunio theatr, gwisgoedd neu ffasiwn.
Mae Prentisiaeth Lefel Uwch yn fan cychwyn da hefyd.

Yn aml, mae graddedigion yn dechrau gweithio fel cynorthwywyr dylunio gwisgoedd neu is-ddylunwyr ac yna'n gweithio eu ffordd i fyny, gan feithrin sgiliau ar hyd y daith.
Bydd y rhan fwyaf o'ch hyfforddiant yn digwydd yn y gwaith.

Mae cyrsiau dylunio gwisgoedd ar gael mewn amryw o golegau ar draws y DU. Maen nhw'n gallu bod yn eithaf drud, ond maen nhw'n boblogaidd iawn fel arfer ac mae lleoedd yn llenwi'n gyflym.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch / Prentisiaeth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd Sylfaen / HNC / HND / Gradd

## Dylunydd Setiau

40 awr yr wythnos (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)

£ Rhwng £20,000 - £25,000

★ Sgiliau trefnu a chynllunio da.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr theatr/teledu yn dylunio a goruchwylio'r broses o greu lleoliadau awyr agored a dan do ar gyfer cynyrchiadau theatr, teledu a ffilm. Rhai gwneud gwaoith ymchwil a dadansoddi'r sgriptiau, cyn gwneud penderfyniadau ynglyn â siâp a maint setiau, cynlluniau lliw a nodweddion golygfaol.

Os ydynt yn gweithio ar ddrama gyfnod, mae angen iddyn nhw ddod o hyd i fanylion am sut oedd pobl yn byw yn y gorffennol. Gall manylion gynnwys:

- sut fath o lefydd oedd pobl y cyfnod yn byw ynddyn nhw
- sut oedd pobl yn dodrefnu ystafelloedd
- pa gynlluniau lliw oedd yn boblogaidd ar adegau penodol.

Ar ôl y cam ymchwil, mae dylunwyr theatr/teledu yn creu modelau wrth raddfa a lluniadau gwaith manwl sy'n cael eu galw'n 'gynlluniau llawr' a 'gweddluniau' i ddangos sut bydd y setiau'n edrych oddi fry ac ar lefel y llygad. Maen nhw'n defnyddio Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) yn eu gwaith.
Gall cyfarwyddwyr a pherfformwyr ddefnyddio'r rhain i benderfynu ynghylch mynedfeydd, allanfeydd a lleoliadau, i gynllunio onglau camera ac i benderfynu ble i roi offer sain.

Wrth i'r setiau gael eu hadeiladu, mae'r dylunwyr yn prynu, llogi neu ddod o hyd i bropiau ac yn paentio'r cefnlenni a'r lloriau,
Mae dylunwyr theatr/teledu yn gweithio'n agos â chyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, rheolwyr llwyfan/llawr, dylunwyr gwisgoedd, dylunwyr goleuo, crefftwyr a thechnegwyr.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel dylunydd theatr/teledu byddwch angen:

- Sgiliau creadigol ac artistig.
- Rhoi sylw agos i fanylion gan y bydd cynulleidfaoedd yn sylwi ar unrhyw wallau.
- Gwybod am feddalwedd dylunio a chreu modelau.
- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes dylunio.
- Sgiliau datrys problemau.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Gweithio o fewn terfynau amser a chyllidebau
- Sgiliau ymchwil da.

- Diddordeb yn y celfyddydau perfformio.
- Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ddylunwyr theatr/teledu hunangyflogedig.

Mae sgiliau a ddysgwyd fel cynorthwyydd mewn stiwdio ddylunio neu mewn ymgynghoriaeth ddylunio yn cael eu gwerthfawrogi.
Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o theatr fasnachol a'r diwydiant darlledu yn fantais.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae cyflog dylunwyr theatr/teledu yn amrywio yn dibynnu a ydyn nhw'n gweithio mewn theatr, teledu neu ffilm, ac a ydyn nhw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig.
Mae dylunwyr theatr preswyl cyflogedig yn ennill tua £16,000 - £20,000 y flwyddyn, gan godi i £25,500 - £34,000 gyda phrofiad.
Gall dylunwyr sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain ennill dros £2,000 am un cynhyrchiad penodol.
Mae'r gwaith fel arfer yn cymryd 6-8 wythnos.
Mae cyfraddau gweithio yn hunangyflogedig yn amrywio o tua £500 yr wythnos i tua £800 yr wythnos ac mae cyflogau uwch yn bosibl.

**Oriau gwaith**
Mae dylunwyr theatr/teledu fel arfer yn gweithio wythnos sylfaenol o 40 awr.
Efallai y bydd angen dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr, gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
Efallai y bydd angen iddyn nhw hefyd weithio oriau maith am gyfnodau, yn enwedig yn y cyfnod cyn cynhyrchiad.

**Ble allwn i weithio?**
Mae cyflogwyr yn cynnwys cwmnïau theatr, cwmnïau teledu a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau.

Llundain, Birmingham, Manceinion a Leeds- ble mae'r prif ganolfannau cynhyrchu theatr/teledu wedi'u lleoli.

Mae'r rhan fwyaf o ddylunwyr theatr/teledu yn gweithio ar sail hunangyflogedig, ar eu liwt eu hunain.
Maen nhw fel arfer yn cael eu cyflogi ar gytundebau byr ac yn gallu symud o un cynhyrchiad i'r llall ym maes theatr, teledu a ffilm.
Gallwch gael gwaith o'r fath trwy asiantaethau recriwtio arbenigol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae llawer o ddylunwyr theatr/teledu yn dechrau yn y diwydiant ar ôl cwblhau gradd, gradd sylfaen neu HND mewn pwnc fel dylunio theatr, dylunio mewnol neu bensaernïaeth.
Mae rhai pobl yn mynd ymlaen i ddilyn y cyrsiau gradd drwy gyrsiau sylfaen.
Mae cyrsiau ol-raddedig arbenigol ar gael hefyd.
Gall Cymdeithas Dylunwyr Theatr Prydain (Society of British Theatre Designers) ddarparu rhestr o gyrsiau perthnasol.
Mae'r rhan fwyaf o ddylunwyr theatr/teledu yn gweithio fel is-ddylunwyr/dylunwyr cynorthwyol ac yn gweithio eu ffordd i fyny, gan feithrin sgiliau ar hyd y daith.
Bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn bennaf yn y gwaith.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd Sylfaen / HND / Gradd

## Dylunydd Tecstiliau

39 awr yr wythnos. (oriau yn gallu bod yn afreolaidd)

£ Rhwng £15,000 - £20,000

★ Gwybodaeth am wead, patrymau, llifynnau ac edafedd.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae dylunwyr tecstilau'n creu dyluniadau ar gyfer ffabrigau wedi'u hargraffu, eu gwehyddu a'u gwau, carpedi, gorchuddion wal a chelfi. Mae eu dyletswyddau'n amrywio yn dibynnu ar ble maen nhw'n gweithio.

Efallai y bydd dylunwyr tecstilau sy'n gweithio i gwmni bach yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn ail-lunio dyluniadau traddodiadol. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i'r rhai sy'n gweithio i gwmni wstid (math o edau sydd wedi'i throelli'n dynn) bach newid dyluniad lliain wlân, gan ychwanegu streipen ychwanegol at ddyluniad.
Mae cwmnïau dylunio mawr fel arfer yn cyflogi tîm bach o ddylunwyr tecstilau sy'n creu dyluniadau gwreiddiol. Mewn rhai achosion, mae cwmnïau'n prynu dyluniadau gan ddylunwyrl lawrydd ac yn eu trosglwyddo i'w dylunwyr mewnol eu hunain i'w haddasu.
Ar ôl gorffen y dyluniad, maen nhw'n ei anfon i labordy argraffu lle bydd sampl yn cael ei chreu a'i throsglwyddo i'r cyfarwyddwr dylunio i'w harchwilio a gwneud sylwadau arni.

Fel arfer, mae dylunwyr crefft yn creu eu samplau eu hunain. Gallai'r dylunydd tecstilau hefyd fod yn gyfrifol am baratoi lliwiau neu samplau, sef darnau bach o'r eitem orffenedig y gallan nhw eu dangos i dîm prynu a manwerthwyr. Mae'r rhain yn rhoi gwell syniad i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio o ymddangosiad a gwead y cynnyrch terfynol.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel dylunydd tecstilau, bydd angen:

- Sgiliau artistig a chreadigol.
- Gwybodaeth am wead, patrymau, llifynnau ac edafedd.
- Dealltwriaeth o liw, siâp a ffurf.
- Gwybodaeth am feddalwedd ddylunio.
- Sgiliau cyfathrebu, cyflwyno a thrafod da.
- Gweithio o fewn amserlenni a chyllidebau.
- Sgiliau datrys problemau.
- Sgiliau trefnu a chynllunio da.
- Rhoi sylw i fanylion.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes dylunio tecstilau.
- Sgiliau crefft ymarferol.
- Bydd dylunwyr tecstilau hunangyflogedig neu lawrydd angen sgiliau busnes a marchnata.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog
Mae cyflogau dylunwyr tecstilau'n amrywio yn dibynnu ar y cyflogwr a'r cyfrifoldebau.

Mae dylunwyr tecstilau'n ennill tua £16,000 - £20,000 y flwyddyn,
yn codi i tua £25,500 - £35,000 y flwyddyn.
Gall y rhai ar gyflogau uwch ennill mwy na £40,000 y flwyddyn.

### Oriau gwaith
Mae dylunwyr tecstilau fel arfer yn gweithio wythnos 39 awr sylfaenol, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Gall oriau gwaith fod yn afreolaidd, yn dibynnu ar y prosiect y maen nhw'n gweithio arno.
Efallai y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser nesáu.

### Ble allwn i weithio?
Mae cyflogwyr yn cynnwys unedau dylunio mewnol cynhyrchwyr tecstilau a stiwdios arbenigol sy'n gweithio i amryw o gynhyrchwyr.

Yn draddodiadol, mae cwmnïau tecstilau wedi'u lleoli yn

Nwyrain Canolbarth Lloegr,

Gogledd-orllewin Lloegr,

yr Alban,

Swydd Efrog a

Gogledd Iwerddon.

Mae yna gyfleoedd i ddylunwyr tecstilau weithio fel dylunwyr hunangyflogedig, llawrydd mewn ymgynghoriaeth a chyda gwaith contract cyfnod penodol.
Gallwch chi gael y gwaith hwn trwy asiantaethau recriwtio arbenigol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Un llwybr cyffredin i'r yrfa hon yw trwy gwrs Sylfaen mewn Celf a Dylunio, ac yna gradd, HND neu radd sylfaen mewn pwnc fel dylunio ffasiwn neu decstilau.
Mae Prentisiaeth Lefel Canolradd neu Uwch yn fan cychwyn da hefyd.
Bydd eich hyfforddiant yn y gwaith yn bennaf.
Mae City & Guilds yn cynnig cymwysterau mewn Gweithgynhyrchu Tecstilau a Thechnegau Creadigol mewn Tecstilau.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Cwrs Sylfaen ➔ Gradd Sylfaen / HND / Gradd

## Ffotograffydd

37 awr yr wythnos. (gall oriau fod yn afreolaidd)

£ Rhwng £15,000 - £20,000

★ Gallu technegol a chreadigol.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae ffotograffwyr yn tynnu lluniau ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau. Maent yn defnyddio ystod o offer technegol i gael yr effaith ofynnol. Mae ffotograffiaeth yn yrfa gystadleuol ac mae llawer o ffotograffwyr yn gweithio'n llawrydd.
P'un ag ydynt yn tynnu lluniau o bethau deiniadol neu ddiddorol, o stori newyddion, gweithdrefn feddygol neu briodas, mae ffotograffwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i greu delwedd sy'n cofnodi eiliad mewn amser.

Yr offer technegol y maent yn eu defnyddio yw:

- camerâu digidol
- meddalwedd delweddu cyfrifiadurol
- offer goleuo arbenigol.

Mae ffotograffwyr ffasiwn/hysbysebu'n tynnu lluniau o ddillad ac eitemau ffasiwn a chynnyrch eraill y mae pobl yn debygol o'u prynu. Defnyddir y lluniau ar gyfer hysbysebion ar y rhyngrwyd, mewn cylchgronau, papurau newydd, catalogau archebu drwy'r post, llyfrynnau teithio a phosteri.
Mae ffotograffwyr ffasiwn yn gwneud llawer o waith trefnu, naill ai'n dewis modelau neu'n trefnu lleoliadau a'r set. Maen nhw'n trefnu goleuadau'r stiwdio er mwyn sicrhau bod croen y model a gweadau ac amrywiol liwiau'r dillad yn edrych ar eu gorau.

Maen nhw'n cydweithio â phobl trin gwallt, steilwyr a cholurwyr sy'n canolbwyntio ar ddelwedd y model. Fel rheol, mae ffotograffwyr ffasiwn yn datblygu eu harddull personol sy'n addas ar gyfer amrywiol feysydd y farchnad a gwahanol grwpiau oedran.

Mae rhai ffotograffwyr yn teithio'n lleol, yn genedlaethol a hyd yn oed (yn enwedig ffotograffwyr ffasiwn) dramor. Gallai hyn gynnwys treulio cyfnodau oddi cartref.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel ffotograffydd, bydd angen:

- Gallu technegol a chreadigol.
- Gwybodaeth am dechnegau ffotograffiaeth.
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o gamerâu a lensys.
- I gadw i fyny gyda thechnoleg sy'n newid.
- Y gallu i weithio i derfynau amser.

- Llygad am fanylion, siâp, lliw a ffurf.
- Sgiliau cyfathrebu da.
- Gwybodaeth amfeddalwedd delweddu cyfrifiadurol a thechnoleg ddigidol.
- Sgiliau trefnu da.
- Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ffotograffwyr hunangyflogedig neu lawrydd.
- Mae trwydded yrru yn ddefnyddiol.

Mae meysydd gwahanol o ffotograffiaeth yn gofyn am nodweddion a sgiliau gwahanol, er enghraifft:

- Mae angen i ffotograffwyr meddygol fod â diddordeb mewn gwyddoniaeth a meddygaeth.
- Mae angen i ffotograffwyr ffasiwn fod yn ymwybodol o dueddiadau ffasiwn.
- Mae angen i newyddiadurwyr y wasg fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n gwneud llun yn addas ar gyfer y newyddion.
- Y gallu i wneud eich model yn gartrefol a chyffyrddus o flaen y camera.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Mae'n amrywio yn dibynnu ar y math o ffotograffiaeth maent yn ei wneud, y sector ffotograffiaeth maent yn gweithio mewn, ac a ydynt yn cael eu cyflogi neu yn hunangyflogedig

Mae ffotograffwyr yn ennill yn yr ardal o £16,000 - £19,000 y flwyddyn,
yn codi i tua £24,500 - £32,000, gyda phrofiad.
Gall cyflogau uwch bod ar gael i ffotograffwyr mwy profiadol.
Gall Ffotograffwyr cael eu talu yn ôl yr awr. Gall hyn amrywio o £7 i £15 yr awr.
Gall taliadau bonws cael eu hychwanegu ar ben cyflog.

Mae cyfraddauLlawrydd yn amrywio yn dibynnu ar y math o waith ac enw da'r ffotograffydd.
Er enghraifft, mae ffotograffiaeth cysylltiadau cyhoeddus yn denu cyfraddau o tua £450 - £850 y diwrnod; gwaith cylchgrawn £300 - £800 y dydd.

### Oriau gwaith

Mae rhai ffotograffwyr yn gweithio 37-awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Mae eraill yn gweithio oriau afreolaidd, a all gynnwys dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau ac ar wyliau cyhoeddus.
Gall ffotograffwyr llawrydd dewis eu horiau gwaith eu hunain.

### Ble allwn i weithio?

Mae ffotograffwyr gwyddonol a diwydiannol/masnachol yn dod o hyd i waith yn y Gwasanaeth Sifil, prifysgolion, amgueddfeydd a diwydiant.

Mae ffotograffwyr meddygol yn gweithio ar gyfer ysbytai, ysgolion meddygol a sefydliadau ymchwil.

Mae gwaith yn cael ei gomisynu gan olygyddion cylchgronau ffasiwn, cwmnïau archebu o gatalog, ac asiantaethau hysbysebu ar ran eu cleientiaid.

Er bod rhai cwmnïau a sefydliadau yn cynnig cyflogaeth barhaol, mae rhan fwyaf o ffotograffwyr yn hunan-gyflogedig ac yn gweithio ar gontract neu eu liwt eu hunain.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Y ffordd orau i ffotograffydd posibl ddysgu am y diwydiant yw naill ai trwy fod yn gynorthwyydd ffotograffig amser llawn neu lawrydd
Neu, gallwch fynd i mewn i'r diwydiant trwy wneud cwrs mewn ffotograffiaeth:
Mae cyrsiau amser llawn a rhan-amser ar gael, sydd yn arwain at raddau sylfaen, HNC, HND neu raddau mewn ffotograffiaeth.
Mae rhai pobl yn dechrau cyrsiau gradd trwy Gwrs sylfaen.
Mae rhai pobl yn dechrau'r yrfa hon trwy Uwch Brentisiaeth.
Gall Sefydliad Ffotograffiaeth Broffesiynol Prydain (BIPP) ddarparu gwybodaeth am gyrsiau hyfforddiant ac aelodaeth.
Mae'r hyfforddiant yn y swydd.
Mae'r Gymdeithas Ffotograffwyr (AOP) hefyd yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant a rhwydweithio.
Mae City & Guilds hefyd yn cynnig cymwysterau mewn ffotograffiaeth.
Efallai y gall ffotograffwyr symud i sefydliadau mwy neu weithio dramor.
Mae'r hyfforddiant yn y swydd.

### Cymwysterau

TGAU➔Safon Uwch neu gyfwerth/Uwch Brentisiaeth➔Cwrs Sylfaen➔Gradd sylfaen/ HNC / HND /

Gradd

## Gof Artistig

39 awr, dydd Llun i ddydd Gwener

£ Rhwng £15,000 a £20,000

★ Cydlyniant da rhwng y llaw a'r llygad

### Gweithgareddau Gwaith

Mae gofau'n gwneud cynnyrch drwy ddefnyddio metel. Maen nhw'n gwneud llawer o wahanol bethau, gan amrywio o ddeiliaid canhwyllau i gatiau. Mae technegau modern a thraddodiadol yn cael eu defnyddio yn y gwaith yma.
Maen nhw'n defnyddio metel poeth iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'u gwaith gan ei bod yn haws ei blygu a'i siapio. Fodd bynnag, mae modd siapio metel pan mae dal yn oer mewn rhai tasgau drwy ddefnyddio offer pwerus. Yn ogystal â gwneud cynnyrch newydd, mae gofau'n aml yn trwsio ac yn adnewyddu eitemau metel.
Mae gofau artistig yn defnyddio offer llaw ac offer pwer i wneud llawer o wahanol bethau, gan gynnwys:

- gatiau a rheiliau
- dodrefn fel lleoedd tân a chadeiriau
- balconïau a grisiau
- cerfluniau.

Cyn dechrau swydd, rhaid iddyn nhw baratoi braslun neu gynllun o beth maen nhw am ei wneud. Yna bydd angen i'r gof benderfynu faint o ddeunyddiau fydd eu hangen arno i gwblhau'r gwaith ac amcangyfrif sawl awr y bydd yn ei gymryd i orffen y gwaith.

Mae gofau yn gwisgo rhyw fath o ddillad sy'n eu diogelu fel arfer, er enghraifft, ffedogau a menig lledr, sbectol diogelwch neu gogls. Gall eu gweithle fod yn swnllyd, budr a phoeth. Wrth weldio, maen nhw'n defnyddio gogls arlliw i ddiogelu eu llygaid rhag y golau uwch-fioled.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I wneud y gwaith yma'n dda, mae angen:

- Sgiliau ymarferol da.
- Bod yn eithaf heini gan fod angen cryfder corfforol ar gyfer llawer o waith gof.
- Cydlyniant da rhwng y llaw a'r llygad
- Ymwybyddiaeth o ddylunio, os yw crefft yn rhan o'ch gwaith fel gof.
- Sgiliau pobl, os yw dod i gysylltiad â chwsmeriaid yn rhan o'ch swydd.
- Rhywfaint o allu mathemateg er mwyn mesur a chyfrifo. Hwyrach y bydd angen i chi baratoi dyfynbrisiau ar gyfer cwsmeriaid hefyd, yn ogystal â gwneud eich cyfrifon eich hun os ydych yn hunangyflogedig

Gall amodau gwaith fod yn llychlyd, felly hwyrach nad yw'r swydd yn eich gweddu os oes gennych alergeddau neu gyflyrau fel asthma.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae'r rhan fwyaf o ofau'n hunangyflogedig ac mae incwm yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar lefel y gwaith.
Mae gofau'n ennill £13,000 - £16,000, gan godi i £20,000 - £25,000 i swyddi mwy llwyddiannus ac arbenigol.

**Oriau gwaith**
Mae gofau'n gweithio tua 39 awr, dydd Llun i ddydd Gwener, gyda goramser a gwaith ar benwythnosau yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd.

**Ble allen i weithio?**
Mae cyfran fawr o ofau'n hunangyflogedig. Gallai gofau artistig fod yn hunangyflogedig yn gweithio'n amser llawn, neu'n rhan-amser nes bod ganddyn nhw ddigon o gomisiynau i ennill bywoliaeth amser llawn o'u gwaith.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae Cymdeithas Gofau Artistig Prydain (BABA) yn paratoi rhestr o gyrsiau addas.

Bydd Prentisiaeth Lefel Uwch yn helpu i chi gael swydd hefyd.
Bydd hyfforddiant yn rhan o'r swydd gyda gof profiadol.

Mae gradd mewn Gwaith Gof Artistig ar gael yng Ngholeg Celfyddydau Henffordd.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth / Prentisiaeth ➔ Gradd

## Pensaer

39 awr, dydd Llun i ddydd Gwener

£ Rhwng £30,000 a £40,000

★Llygad graff am fanylion.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae penseiri'n rhan o'r holl broses adeiladu o gynllunio a dylunio adeiladau Mae'n bosibl y byddent yn gweithio ar amrywiaeth eang o brosiectau, gan amrywio o wneud newidiadau i adeiladau presennol i greu ystadau o dai.

Mae'r broses adeiladu'n dechrau gyda briff, sy'n nodi pa fath o adeilad sy'n ofynnol, at beth y bydd yn cael ei ddefnyddio a faint mae disgwyl iddo ei gostio.
Cyn i'r cyfnod dylunio ddechrau, efallai bydd y pensaer yn trefnu gwaith ymchwil i gael gwybodaeth am anghenion a barn y cwsmer. Byddent hefyd yn archwilio adeiladau tebyg ac yn archwilio safle'r datblygiad.

Ffrwyth cyd-dynnu yw'r rhan fwyaf o adeiladau, ac mae'r pensaer profiadol yn aml yn gweithio fel arweinydd prosiect, gan drafod syniadau gyda grwp o weithwyr proffesiynol a chydlynu eu gwaith.

Ar ôl sefydlu syniadau, mae'r pensaer yn cynhyrchu brasluniau a chynlluniau o'r tu mewn a'r tu allan, sy'n dangos pa faint sydd angen i'r adeilad fod a pha ddeunyddiau sy'n briodol i'w defnyddio. Mewn rhai achosion, mae'r pensaer yn cydlynu'r gwaith o adeiladu model i egluro'r cynigion.

Mae'r pensaer wedyn yn cynhyrchu lluniadau technegol manwl at ddefnydd y contractwr adeiladu. Mewn rhai achosion, efallai bydd technegwyr pensaernïol yn gwneud hyn. Yn y man hwn, efallai bydd y pensaer yn siarad â chynllunwyr tref a swyddogion rheoli adeiladu ynghylch caniatâd cynllunio ac agweddau ar iechyd a diogelwch. Ar ôl cytuno ar gontractau gyda'r contractwr adeiladu, mae'r pensaer yn llunio rhaglen waith penodol.
Wrth i'r gwaith adeiladu symud yn ei flaen, mae'r pensaer yn ymweld yn rheolaidd â'r safle i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r lluniadau a'r manylebau gwreiddiol. Mae'n trafod unrhyw broblemau gyda'r cleient ac aelodau arbenigol o'r tîm dylunio sy'n gweithio ar y prosiect.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I wneud y swydd hon yn dda, bydd angen y canlynol arnoch:

- Diddordeb mewn dylunio a rhywfaint o allu artistig.
- Creadigrwydd a'r dychymyg i gynhyrchu rhywbeth sy'n plesio'r llygad ac sy'n addas i'w amgylchedd.
- Y gallu i feddwl yn drylwyr am broblemau a'u datrys.
- Sgiliau cyflwyno cryf, oherwydd bydd rhaid i chi gyflwyno'ch syniadau i amrywiaeth eang o bobl.
- Bod yn berson trefnus gyda sgiliau cynllunio da.
- Gwybodaeth am dechnoleg fusnes.
- Sgiliau TGCH, yn enwedig profiad o ddefnyddio meddalwedd Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.
- Llygad graff am fanylion.

- Sgiliau da i ymdrin â phobl.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae cyfraddau cyflog yn amrywio gan ddibynnu ar gymwysterau a phrofiad, maint y cwmni a lleoliad.

Mae penseiri'n ennill tua £17,500 - £24,000 y flwyddyn, gan godi i £30,000 - £37,500.
Gall uwch benseiri ennill tua £50,000 y flwyddyn, ac mae cyflogau uwch yn bosibl.

**Oriau gwaith**
Mae penseiri'n gweithio 39 awr sylfaenol yr wythnos, gyda gwaith achlysurol gyda'r nos ac ar benwythnosau yn unol â gofynion y prosiect.

**Ble allen i weithio?**
Mae'r cyflogwyr yn cynnwys:

- busnesau pensaernïol preifat
- adrannau pensaernïol neu gynllunio llywodraeth leol
- adrannau llywodraeth ganolog
- cwmnïau adeiladu
- busnesau ymchwil
- cwmnïau gweithgynhyrchu
- y gwasanaeth iechyd
- addysg
- mewn gwledydd eraill, er enghraifft, yng Nghanada, Iwerddon a'r Dwyrain Canol.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae'n cymryd o leiaf saith blynedd i hyfforddi i fod yn bensaer ac mae'r hyfforddiant yn cynnwys tri chyfnod allweddol.

Yn gyntaf, bydd angen i chi gwblhau pum mlynedd o raglen gradd mewn pensaernïaeth,

Ar ôl y brifysgol, bydd rhaid i chi wneud o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith mewn busnes pensaer.

Bydd y ddwy flynedd o brofiad proffesiynol yn cael eu rhannu'n wahanol gyfnodau. Byddwch chi'n gwneud blwyddyn mewn busnes ar ôl tair blynedd o astudiaeth academaidd, ac yna blwyddyn arall ar ôl dwy flynedd arall yn y brifysgol. Mae rhai pobl yn gweithio mwy na dwy flynedd i gyd.

Mae'r rhan derfynol o'ch hyfforddiant yn cael ei galw'n arholiad proffesiynol. Bydd arholwyr yn asesu sut hwyl gawsoch chi wrth eich profiad gwaith. Bydd arholiad ysgrifenedig ac arholiad llafar.

Ar ôl i chi gwblhau'r holl gyfnodau hyfforddiant, bydd angen i chi gofrestru gyda'r Bwrdd Cofrestru Penseiri (ARB).

Mae hefyd yn bosibl astudio'n rhan-amser neu wneud diwrnodau astudio i fod yn bensaer. I ddechrau'r cyrsiau hyn, fel arfer bydd angen nifer o flynyddoedd o brofiad gwaith arnoch mewn swyddfa pensaer.

Gyda phrofiad, mae'n bosibl cael eich gwneud yn gydymaith, ac yna'n bartner mewn cwmni pensaer. Mae rhai penseiri'n sefydlu eu busnesau eu hunain.

I fod yn hunangyflogedig fel pensaer llawrydd neu i ymuno â phartneriaeth, bydd angen nifer o flynyddoedd o brofiad proffesiynol arnoch fel arfer.

### Cymwysterau

TGAU ➔ Safon Uwch neu gyfwerth ➔ Gradd / Profiad ac astudio rhan amser

## Saer Coed

39 awr yr wythnos

£ Rhwng £25,000 - £30,000

★ Rhoi sylw i fanylion a bod yn graff o ran siâp a lliw.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae seiri coed a seiri dodrefn yn defnyddio eu sgiliau i wneud strwythurau a gosodiadau fel ffenestri, drysau, grisiau, dodrefn a gosodiadau mewn siopau o ddeunydd pren.

Maent yn torri, yn siapio ac yn uno pren drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer fel morthwylion, plaeniau, geingiau, tyrnsgriwiau a thapiau mesur. Maent yn aml yn defnyddio offer pwer a pheiriannau torri hefyd.

Rhaid i seiri coed a seiri dodrefn astudio lluniau, gwneud cyfrifiadau a dewis deunyddiau addas i fodloni'r anghenion dylunio.

Mae sawl math gwahanol o saer coed a saer dodrefn, er enghraifft:

- saer dodrefn mainc - mewn gweithdy fel arfer, sy'n gwneud pethau fel drysau, fframiau ffenestri a thrawstiau to.
- saer coed ar safle - sy'n gweithio ar y safle yn gwneud pethau fel gosod handlenni a chloeon ar ddrysau, neu'n trwsio dodrefn.

Mae iechyd a diogelwch yn elfen bwysig o'r gwaith. Felly, mae seiri coed a seiri dodrefn yn aml yn gorfod gwisgo rhyw fath o ddillad sy'n eu diogelu. Gallent weithio mewn gweithdy neu ar safle adeiladu.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I wneud y math yma o waith yn dda, mae angen:

- Bod yn dda gyda'ch dwylo
- Bod yn heini
- Sgiliau rhif, oherwydd mae angen cyfrifo onglau a mesuriadau.
- Rhoi sylw i fanylion a bod yn graff o ran siâp a lliw.
- Gallu ymdopi ag uchder er mwyn gweithio ar ysgolion neu ar sgaffaldiau
- Bod yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a diogelwch yn y diwydiant yma.
- Byddai trwydded yrru'n ddefnyddiol ar gyfer y math yma o waith.

Hwyrach na fyddai'r swydd yma'n addas i bobl â chyflwr croen fel ecsema, neu anawsterau anadlu, fel asthma.

## Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae seiri coed a seiri dodrefn cyflogedig yn ennill £16,500 - £20,000, gan godi i £23,500 - £28,000 gyda phrofiad.
Mae cyfraddau fesul awr yn amrywio o'r isafswm cyflog cenedlaethol i £15 yr awr.

**Oriau gwaith**
Mae seiri coed a seiri dodrefn yn gweithio 39 awr yr wythnos. Gall goramser, gan gynnwys boreau Sadwrn, fod ar gael.

**Ble allen i weithio?**
Mae cwmnïau adeiladu a pheirianneg sifil o bob maint ymhlith y cyflogwyr.
Mae'r rhain yn amrywio o gwmnïau adeiladu lleol sy'n cyflogi un neu ddau o weithwyr, i gwmnïau sy'n adnabyddus yn genedlaethol ac sy'n cyflogi cannoedd o weithwyr.
Mae cyfleoedd ar gyfer seiri coed i weithio'n annibynnol fel is-gontractwyr hynangyflogedig.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae Prentisiaeth Lefel Uwch yn fan cychwyn da**.**

Mae amrywiaeth o gymwysterau perthnasol ar gael gan sefydliadau fel City & Guilds ac Edexcel.
Gallai'r cyrsiau yma fod mewn pwnc mwy cyffredinol, fel adeiladu.

Bydd prentisiaethau'n cynnwys hyfforddiant yn y gwaith a'r coleg fel arfer.
Cewch hyfforddiant mewn pynciau fel iechyd a diogelwch hefyd.

Mae Sefydliad y Seiri Coed yn cynnig cymwysterau mewn gwaith coed a saernïaeth.
Mae lefelau amrywiol o gymwysterau.
Mae'r un y byddwch yn ei astudio yn dibynnu ar faint o brofiad neu hyfforddiant sydd gennych.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Prentisiaeth Lefel Uwch

## Therapydd Celf

37 awr (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)
£ Rhwng £30,000- £40,000

★ Personoliaeth gyfeillgar a chefnogol

### Gweithgareddau Gwaith

Mae therapyddion celf yn defnyddio celf i helpu pobl sydd ag anawsterau corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol. Gall celf helpu pobl i fynegi eu hunain ac archwilio eu teimladau.
Mae therapyddion celf yn gweithio gydag unigolion a grwpiau, mewn meysydd fel:
- iechyd meddwl,
- anableddau dysgu,
- gwasanaethau gofal,
- carchardai.

Nod y therapi yw galluogi'r cleient i newid a thyfu ar lefel bersonol.

Mae therapyddion celf yn gweithio gydag ystod eang o gleientiaid, gan gynnwys pobl sydd â:
- phroblemau iechyd meddwl,
- profiad o gael eu cam-drin,
- anableddau dysgu,
- afiechydon hirdymor ac anwelladwy,
- problemau ymddygiad,
- dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol.

Pan fydd y therapydd yn cyfarfod â chleient am y tro cyntaf, bydd yn gwrando ac yn siarad ag ef, gan asesu ei broblem a phenderfynu ar y dulliau mwyaf priodol i'w defnyddio gydag ef.

Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu cleientiaid i feddwl am eu profiadau, mynegi eu teimladau a'u hemosiynau, ymlacio a chyfathrebu. Mae elfen gymdeithasol gwaith celf grwp hefyd yn galluogi cleientiaid i ffurfio perthynas gefnogol â'i gilydd. I rai cleientiaid, gall mynegi teimladau ar lafar yn unig fod yn anodd iawn. Mae therapi celf yn arbennig o ddefnyddiol i gleientiaid sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu ar lafar. Gall y broses greadigol hefyd helpu i leddfu teimladau o rwystredigaeth, dicter neu iselder sydd gan unrhyw gleient.

### Personal Qualities and Skills

To be an art therapist, you'll need:

- Very strong artistic skills and knowledge of art methods.
- Creativity and imagination.
- A warm, friendly and supportive personality.
- The ability to *empathise* with your *clients*.
- Emotional strength to deal with clients' problems and experiences.
- Patience: not all clients will respond quickly to the treatment.

- Teamwork skills to work with other professionals, for example, psychologists, medical staff, teachers and prison officers.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

Er mwyn bod yn therapydd celf, bydd angen:

- Sgiliau artistig cryf iawn a gwybodaeth am ddulliau celf.
- Creadigrwydd a dychymyg.
- Personoliaeth gyfeillgar a chefnogol.
- Y gallu i uniaethu â'ch cleientiaid.
- Cryfder emosiynol i fynd i'r afael â phroblemau a phrofiadau cleientiaid.
- Amynedd: ni fydd pob cleient yn ymateb yn gyflym i'r driniaeth.
- Sgiliau gwaith tîm i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, er enghraifft, seicolegwyr, staff meddygol, athrawon a swyddogion carchardai.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Maent yn ennill tua £25,472 - £30,460 y flwyddyn, yn codi i £34,189 - £40,157 gyda phrofiad.
Gall prif therapyddion celf ennill hyd at £46,621 y flwyddyn.

**Oriau gwaith**

Mae therapyddion celf fel arfer yn gweithio wythnos 37 awr sylfaenol, a all gynnwys gweithio gyda'r nos ac ar y penwythnos.

**Ble allwn i weithio?**
Mae cyflogwyr yn cynnwys y GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
Mae therapyddion celf hefyd yn gweithio mewn ysgolion arbennig, lle maen nhw'n helpu plant sydd ag anableddau dysgu neu broblemau emosiynol.
Mae rhai therapyddion yn gweithio mewn meysydd fel cyfarwyddo plant, therapi teulu a therapi priodas, unedau trin cyffuriau ac alcohol a charchardai.

### Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Er mwyn gweithio fel therapydd/seicotherapydd celf (mae'r ddau deitl yn disgrifio'r un proffesiwn), rhaid eich bod chi wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC). Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

Gallwch chi gofrestru gyda'r HCPC trwy radd Meistr ôl-raddedig mewn therapi celf neu seicotherapi celf.
Mae gan yr HCPC a'r British Association of Art Therapists (BAAT) restr o gyrsiau a gymeradwyir ar eu gwefannau.
Mae cyrsiau'n para dwy flynedd yn llawn amser a thair blynedd yn rhan-amser.
Er mwyn cael lle ar gwrs ôl-raddedig, fel arfer bydd angen i chi fod wedi cael cyfnod penodol o brofiad gwaith, er enghraifft, ym maes iechyd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol. Gall hyn gynnwys profiad gwaith gwirfoddol.

Fel arfer, bydd rhaid i chi gyflwyno portffolio o waith celf sy'n dangos ymrwymiad hirdymor go iawn i gelfyddydau gweledol.

Rhaid i'r holl fyfyrwyr ar gyrsiau a gymeradwyir gan BAAT fynychu sesiynau therapi personol rheolaidd.

Mae cyrsiau diploma'n cynnwys pynciau fel datblygiad dynol, iechyd, anabledd, seicodynameg a theori therapi celf, ynghyd â gweithdai hyfforddiant therapi celf a phrofiad clinigol.

## Cymwysterau

Er mwyn cael mynediad i gwrs gradd Meistr ôl-raddedig mewn therapi celf neu seicotherapi celf, fel arfer bydd angen gradd mewn celf (nid celfyddyd gain yn unig, ond pynciau celfyddydol eraill fel cerameg, tecstilau a dylunio graffeg).
Efallai y bydd modd cael mynediad gyda gradd neu gefndir mewn maes perthnasol, fel seicoleg, nyrsio, addysg, therapi galwedigaethol neu waith cymdeithasol, os gallwch chi ddangos eich bod chi'n dal i wneud celf.

TGAU ➔ Safon Uwch + Profiad gwaith➔ Gradd berthnasol ➔ Ol-radd mewn therapy/seicotherapi celf

## Ymchwilydd Lluniau

39 awr yr wythnos (gall gynnwys penwythnosau a gyda'r nosau)
£ Rhwng £20,000 - £25,000

★ Dychymyg ac ymwybyddiaeth weledol.

### Gweithgareddau Gwaith

Mae ymchwilwyr lluniau'n dewis darluniau neu luniau perthnasol i'w defnyddio ar wefannau, mewn llyfrau, mewn cylchgronau ac ar gyfer hysbysebu.

Mae'r broses yn dechrau pan fydd golygydd neu awdur cyhoeddiad yn gofyn i'r ymchwilydd ganfod llun addas. I helpu â hyn, gallai'r ymchwilydd gael copi o'r llawysgrif i'w darlunio a disgrifiad bras o sut y bydd y tudalennau'n cael eu cydosod a'u dylunio.
Pan fydd yr ymchwilydd wedi canfod darlun addas, mae yn ei anfon at olygydd neu awdur y llawysgrif. Mae'r ymchwilydd hefyd yn darparu penawdau (geiriau) ar gyfer y lluniau yn ogystal â rhestr o ffynonellau lluniau i'w cynnwys yn y llyfr. Mae'r ymchwilydd, y golygydd, yr awdur a'r dylunydd yn gweithio ar y cyd I ddewis y darluniau terfynol.

Mae'n rhaid i ymchwilwyr lluniau ystyried cost defnyddio llun ac a yw'r pris o fewn eu cyllideb
Mae'r ymchwilydd yn cadw cofnodion manwl o'r ceisiadau am luniau, gan gynnwys y teitl, yr awdur a dyddiad y cyhoeddiad lle gwelir y darlun. Mae hefyd angen iddo wybod at bwy yr anelir y cyhoeddiad a sawl copi fydd yn cael ei argraffu.

### Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn ymchwilydd lluniau, bydd arnoch angen:

- sgiliau TG.
- Dychymyg ac ymwybyddiaeth weledol.
- Y gallu i weithio'n gywir ac yn drefnus.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu da.
- Y gallu i siarad ar y ffôn yn ddymunol ac yn hyderus.
- Sgiliau trafod da a dyfalbarhad er mwyn sicrhau'r lluniau gorau.
- Meddwl ymholgar a sgiliau ymchwilio da.
- Mae sgiliau a magir er enghraifft mewn dylunio graffeg, systemau technoleg gwybodaeth, cyhoeddi, gwaith amgueddfa neu oriel celf, gwaith mewn llyfrgelloedd lluniau, neu ffotograffiaeth yn ddefnyddiol.

### Cyflog a Chyfleoedd

**Cyflog**
Mae cyflogau ymchwilwyr lluniau'n amrywio gan ddibynnu ar y cyfrwng y maent yn ei ddefnyddio, ystod y cyfrifoldebau ac a ydynt mewn cyflogaeth neu'n hunangyflogedig.

Mae ymchwilwyr lluniau'n ennill rhwng £22,000 – £26,000 y flwyddyn, gan godi i tua £31,000 – £36,000.

**Oriau gwaith**
Fel arfer mae ymchwilwyr yn gweithio 39 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Weithiau bydd rhaid iddynt weithio'n hwyr a gweithio dros y penwythnosau, yn enwedig wrth i ddyddiadau cau agosáu.

**Ble gallwn i weithio?**
Mae'r cyflogwyr yn cynnwys cyhoeddwyr, cyfryngau darlledu, gan gynnwys:
-ffilmiau a theledu,
-asiantaethau hysbysebu,
-chwmnïau sy'n ymwneud â chyfryngau newydd – cryno-ddisgiau a'r rhyngrwyd.

Mae cyfleoedd ar gael i ymchwilwyr lluniau mewn trefi a dinasoedd trwy'r DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd yn Llundain ac yn Ne-ddwyrain Lloegr, lle mae mwy o asiantaethau cyfryngau i'w cael.

Mae cyfleoedd i ymchwilwyr lluniau fod yn hunangyflogedig, ac i weithio'n llawrydd.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Mae llawer o ymchwilwyr lluniau'n dechrau ar eu gyrfaoedd mewn maes gwaith perthnasol megis:

- cyhoeddi
- ffotograffiaeth
- dylunio
- amgueddfeydd
- orielau celf
- llyfrgelloedd lluniau.

I gael mynediad i'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn, mae angen gradd.
Gall The Picture Research Association (PRA) ddarparu rhestr o gyrsiau y gallwch eu hastudio ym maes ymchwil lluniau. Mae'r rhan fwyaf yn gyrsiau undydd neu'n gyrsiau dysgu o bell.

Byddwch yn hyfforddi'n bennaf wrth weithio.

## Cymwysterau

TGAU ➔ Lefel A neu gyfwerth ➔ Gradd ➔ Cwrsiau undydd/Cyrsiau dysgu o bell